Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Dermatitis Carnol Defeidiog Heintus (CODD)

Mae hwn yn fath cymharol newydd o gloffni mewn defaid, a gofnodwyd am y tro cyntaf yn y DG yn 1997. Mae'n glefyd heintus a all ymledu'n gyflym trwy ddiadell naïf. Mae'n ddifrifol a phoenus ac yn broblem ddifrifol o ran lles ac yn ariannol mewn diadelloedd sy'n dioddef.

Nid yw'r hyn sy'n ei achosi wedi'i ddeall yn iawn ond mae bacteria sbirochet, yn debyg i rai dermatitis carnol gwartheg, yn chwarae rhan ac felly gall gwartheg â dermatitis carnol fod yn fygythiad i ddefaid.

Mae CODD yn dechrau ym mywyn y carn ac, yn wahanol i glwy'r traed, nid yw'n mynd rhwng y carnau.

Mae'r heintiad yn ymledu i lawr y droed gan wahanu'r corn a'r haenau byw oddi tano; yn y diwedd gall y bydd amwisg y corn cyfan yn dod yn rhydd.



*Achos cynnar o CODD*





*Cafodd corn rhydd ei naddu'n ofalus er mwyn datgelu'r anaf – ond nid yw hyn yn cael ei argymell.*

*Cafodd rhai lluniau eu darparu trwy garedigrwydd yr Athro Laura Green, Prifysgol Warwick*



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Triniaeth

Nid oes modd trin a rheoli CODD fel y gwneir ar gyfer clwy'r traed.

Mynnwch air â'ch milfeddyg er mwyn cynllunio triniaeth ar gyfer eich diadell.

Gall hynny gynnwys:

- Chwistrellu gwrthfiotigau mewn achosion unigol, neu roi baddon traed i dwr o anifeiliaid. Nid oes yr un â thrwydded ar hyn o bryd ar gyfer defaid, ond mae modd eu cael trwy bresgripsiwn gan eich milfeddyg a rhaid cadw'r anifeiliaid o'r gadwyn fwyd am 28 diwrnod.

- Gwrthfiotigau sy'n cael eu gweini trwy bigiadau i anifeiliaid unigol sy'n dioddef. Mae'r rhain wedi'u trwyddedu i'w defnyddio ar ddefaid. Am resymau diogelwch pobl, dim ond milfeddyg sy'n gallu gweini un ohonynt, sef Timlicosin.

- TRINIAETH GYFLYM

- Rhoi anifeiliaid sy'n dioddef ar wahân.

Nid yw brechiadau ar gyfer clwy'r traed wedi'u trwyddedu i reoli CODD a chredwyd eu bod yn aneffeithiol. Fodd bynnag, mae gwaith diweddar wedi dangos ei bod yn bosibl nad yw hyn yn wir. Gall CODD a chlwy'r traed ill dau fod yn bresennol mewn diadelloedd ac mae astudiaethau wedi dangos fod Dichelobacter nodosus (y bacteria sy'n gyfrifol am glwy'r traed) yn bresennol yn y rhan fwyaf o draed sy'n dioddef o CODD.

## Atal

- Cadwch yr holl anifeiliaid sy'n cael eu prynu (gan gynnwys eich defaid chi sy'n dychwelyd ar ôl bod yn pori i ffwrdd) ar wahân a rhowch faddon traed iddynt unwaith eu bod yn gadael y lori neu'r trelar

- Cadwch lygad am gloffni dros gyfnod o bythefnos

- Daliwch unrhyw ddefaid cloff a'u harchwilio

- Archwiliwch yr holl ddefaid, os yw hynny'n ymarferol, cyn eu rhoi gyda'r brif ddiadell

- Os oes gennych amheuon ynglŷn ag unrhyw ddefaid, cadwch nhw ar wahân

- Peidiwch â rhoi defaid i bori gyda gwartheg os oes rhai o'r rheini'n gloff neu os oes gan y fuches hanes o ddermatitis carnol gwartheg.

## Crynodeb

**Nid yw CODD yr un fath â chlwy'r traed**

**Gofynnwch am ddiagnosis**

**Paratowch gynllun trin a rheoli ar y cyd â'ch milfeddyg**

**Rhowch driniaeth heb oedi**

**Cadwch ddefaid sy'n dioddef ar wahân i'r lleill**

**Bioddiogelwch – peidiwch â chyflwyno / ailgyflwyno**